



Ffordd Bethel
Caernarfon
 Gwynedd
 LL55 1HW

Ffon (01286) 673076
 Fax: (01286) 674521
 E-bost :- gweinyddol@syrhughowen.gwynedd.sch.uk
 Gwefan : - www.ysgolsyrhughowen.org



Pennaeth:- Mr Paul G.S. Matthews-Jones

Please scroll downwards for the English version

22/11/16

Annwyl riant / gwarcheidwad,

Mae eich mab/merch yn dilyn cwrs TGAU mewn Gwyddoniaeth yn ystod Blwyddyn 11. Mae 25% o'r marciau yn dod o **asesiad o waith ymarferol** sydd yn digwydd yn yr ysgol **yn ystod yr wythnos nesaf**. Bydd y disgyblion yn cael eu rhyddhau o'u gwersi arferol i wneud y gwaith hwn **drwy'r dydd ar ddydd Mawrth, Tachwedd 29, bore Mercher, Tachwedd 30** ac yn ystod **bore Iau, Rhagfyr 1**. Felly mae'n hynod o bwysig fod eich mab/merch yn bresennol yn yr ysgol ar y dyddiau hyn ac yn gweithio'n galed tuag at ennill cyn gymaint o farciau â sy'n bosib.

Os yw eich mab/merch yn **ail-sefyll arholiadau Gwyddoniaeth Blwyddyn 10** ym mis Ionawr, neu yn sefyll **arholiadau uned 2 Gwyddoniaeth Driphlyg** am y tro cyntaf, yna rydym wedi trefnu fod gwersi adolygu ar gyfer wythnos olaf y tymor yma ac ar ddechrau'r tymor nesaf. Mae'r trefniadau fel a ganlyn:

Dydd Mawrth, Rhagfyr 13,	Bioleg - adolygu B1 (gwaith BI10) a B2 (Gwyddoniaeth Driphlyg), gwersi 3-6
Dydd Mercher, Rhagfyr 14	Cemeg – adolygu C1 (gwaith BI10) drwy'r dydd
Dydd Iau, Rhagfyr 15	Ffiseg – adolygu P1 (gwaith BI10) drwy'r dydd
Dydd Mercher, Ionawr 4	Bioleg - adolygu B1 (gwaith BI10) a B2 (Gwyddoniaeth Driphlyg), gwersi 3-6
Dydd Iau, Ionawr 5	arholiadau Bioleg am 9:00
Dydd Llun, Ionawr 9	Cemeg – C2 (Gwyddoniaeth Driphlyg) – gwersi 1-4 C1 (gwaith BI10) – gwersi 5 a 6
Dydd Mawrth, Ionawr 10	arholiadau Cemeg am 9:00
Dydd Mercher, Ionawr 11	Ffiseg – P1 (gwaith BI10), gwersi 1-4 P2 (Gwyddoniaeth Driphlyg) – gwersi 5 a 6
Dydd Iau, Ionawr 12	arholiadau Ffiseg am 9:00

Yn y cyfamser, bydd gwaith adolygu penodol yn cael ei osod ar gyfer y rheiny sy'n ail-sefyll er mwyn eu hatgoffa o waith y llynedd. Mae'n hanfodol fod y gwaith hwn yn cael ei gwblhau os yw disgybl am wella ar

berfformiad yr Haf diwethaf. Yn yr un modd, rwy'n annog unrhyw ddisgybl sydd angen cefnogaeth gydag unrhyw agwedd o'r gwaith i drafod hyn gyda'i athro/athrawes cyn gynted â phosib.

Diolchaf i chi am eich cefnogaeth wrh geisio sicrhau y cyfle gorau posib i'ch mab/merch lwyddo mewn Gwyddoniaeth.

22/11/16

Dear parent / guardian,

Your son/daughter is currently working towards GCSE grades in Science during Year 11. 25% of the marks are available from **an assessment of practical work** that is carried out in the school **during next week**. Pupils will be released from their normal timetable to concentrate on this practical work **all day on Tuesday, November 29, on Wednesday morning, November 30, and during Thursday morning, December 1**. It is therefore essential that your son/daughter is present in school on these dates, and is working hard in order to achieve as many marks as possible in this assessment.

If your son/daughter is **re-sitting Year 10 Science examinations** in January, or is **sitting unit 2 examinations in Triple Science** for the first time, then we have arranged revision lessons during the final week of term and at the beginning of next term. The arrangements are as follows:

Tuesday, December 13,	Biology – revising B1 (Year10 work) and B2 (Triple Science), lessons 3-6
Wednesday, December 14	Chemistry – revising C1 (Year10 work) all day
Thursday, December 15	Physics – revising P1 (Year10 work) all day
Wednesday, January 4	Biology – revising B1 (Year10 work) and B2 (Triple Science), lessons 3-6
Thursday, January 5	Biology examinations at 9:00
Monday, January 9	Chemistry – C2 (Triple Science) – lessons 1-4 C1 (Year10 work) – lessons 5 and 6
Tuesday, January 10	Chemistry examinations at 9:00
Wednesday, January 11	Physics – P1 (Year10 work), lessons 1-4 P2 (Triple Science) – lessons 5 and 6
Thursday, January 12	Physics examinations at 9:00

In the meantime, specific revision work will be set for those pupils who are re-sitting examinations so that they are able to re-familiarise themselves with last year's work. It is essential that this work is completed if a

pupil is to improve on last summer's performance. I will also stress the need for any pupil who is in need of support with any aspect of the work to discuss this with his/her teachers as soon as possible.

I thank you for your support as we attempt to ensure that you son/daughter has the best possible opportunity to succeed in Science.

Yn gywir / Yours sincerely,

Dr Huw Williams (Pennaeth Gwyddoniaeth / Head of Science)